*Darlith flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig*, 7 Tachwedd 2025

# Pam y sefydlwyd Plaid Cymru?

Yn gyntaf, ga'i ddiolch am yr anrhydedd fawr iawn o gael fy ngwahodd i draddodi darlith flynyddol yr Archif Wleidyddol. A minnau wedi troi at y gwahanol ddarlithoedd a draddodwyd yn y gyfres hon droeon dros y blynyddoedd wrth i mi ymchwilio i'r hyn a'r llall – yn wir, rwyf wedi gwneud hynny sawl tro'n ystod y misoedd diwethaf yn unig – rwy'n boenus-ymwybodol fy mod i'n sefyll mewn olyniaeth o ysgolheigion a gwleidyddion gwirioneddol ddisglair wrth sefyll yma o'ch blaen. Alla'i mond diolch i'r trefnwyr am eu ffydd ynof wrth fy ychwanegu at y fath gwmwl tystion!

Ga'i ddweud hefyd ei bod hi'n hyfrydwch cael dychwelyd i Aberystwyth, tref lle y treuliais chwarter canrif hapus, ac yn enwedig i gael dychwelyd i un o fy hoff adeiladau yn y byd, sef 'Y Gen'. Mae gwneud hynny'n fy atgoffa'n benodol am dri pherson yr wyf yn eu cysylltu â'r Llyfrgell a Rhiw Penglais yn fwy cyffredinol; tri a roddodd hwb mawr i mi wrth afael yn yr ymchwil sy'n sail i'r ddarlith hon. Mae'r tri, ysywaeth, bellach wedi ein gadael. Felly dyma fi'n achub ar y cyfle i godi fy het, yn drosiadol o leiaf, er cof am

> -- **John Davies** (John Bwlchllan) a dreuliodd oriau lawer yn rhannu ei wybodaeth am y mudiad cenedlaethol yng Nghymru â mi; fel arfer ar waelod yr allt oddi-tanom wrth fwrdd yn Y Cŵps.
>
> -- **Geraint H. Jenkins**, a oedd wastad mor barod ei gefnogaeth i ysgolheigion iau ac a roddodd lwyfan i mi ddechrau cyhoeddi am y pwnc yn y gyfres ysblennydd honno, *Cof Cenedl*.
>
> -- A **Meredydd Evans**, a oedd *wastad* yn llawn diddordeb afieithus a chadarnhaol yn yr hyn yr oeddwn i'n ceisio ei wneud yn y maes gan fy annog bob tro i 'Ddal ati, Dicw'!

Bu cael adnabod y tri'n fraint ac yn fendith.

Gyda hynny o ragymadroddi, gadewch i mi droi at fy nhestun.

---

Yn gynharach eleni, fel y gwyddys, bu Plaid Cymru'n dathlu ei chanfed penblwydd. Fel rwy'n dweud yn y rhifyn cyfredol o gylchgrawn *Barn*, y gwir amdani yw fod gan Blaid Cymru fel deiliaid Coron Lloegr ddau ben-blwydd – **pen-blwydd swyddogol**, fel petai, ynghyd â'r **pen-blwydd go iawn**. Y pen-blwydd swyddogol a ddathlwyd fis Awst eleni. Yn nhermau'r pen-blwydd go iawn, mae Plaid Cymru o fewn ychydig o wythnosau'n unig i fod yn gant-ac-un mlwydd oed! Ond bid a fo am hynny, fe ddewisodd y blaid ddathlu ei chanrif eleni ac rwy'n tybio mae y nhw bia'r dewis.

Yr hyn sy'n drawiadol, yw fod y dathlu wedi digwydd ar yr union adeg pan y mae'r arolygon barn yn awgrymu fod y gefnogaeth ymysg yr etholwyr i Blaid Cymru yn uwch nag y bu erioed yn ei hanes – rhywbeth a gadarnhawyd yn y modd mwyaf dramatig posibl gan fuddugoliaeth ysgubol y blaid yn is-etholiad Caerffili cwta bythefnos yn ôl. Erbyn hyn mae'n eglur fod Plaid Cymru'n sefyll ar drothwy blwyddyn a allai'n hawdd fod yr un fwyaf arwyddocaol yn ei holl hanes; blwyddyn pan y gall arwain Llywodraeth Gymreig am y tro cyntaf yn ei hanes. Cawn weld beth a ddaw, a hynny – credwch neu beidio – chwe mis i heddiw!

Fe fyddwch wedi sylwi, rwy'n siŵr, fod y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru – diwydiant sy'n parhau i wneud gwaith gwyrthiol er gwaethaf amodau llwm ar y naw – wedi cymryd mantais lawn ar ganmlwyddiant geni Plaid Cymru. Mae Gwasg Prifysgol Cymru wedi ail-gyhoeddi astudiaeth ddisglair D. Hywel Davies o ddau ddegawd cyntaf Plaid Genedlaethol Cymru, a hefyd wedi cyhoeddi cyfieithiad Saesneg o fy astudiaeth o syniadaeth Plaid Cymru ynghyd ac ail-gyhoeddi'r fersiwn Gymraeg wreiddiol. Ar ben hynny, mae gwasg Y Lolfa wedi

cyhoeddi cyfrol newydd sbon gan Arwel Vittle a Gwen Angharad Gruffudd sy'n adrodd hanes y sefydlu ac ar fin cyhoeddi cyfrol gan Glyn Tomos sy'n gyfuniad o gofiant a theyrnged i H.R. Jones, Deiniolen, a rhai o'i gydweithwyr agosaf.

Mae'r gwahanol gyfrolau yma wedi cynnig dealltwriaeth lawnach i ni o'r modd y sefydlwyd Plaid Cymru ynghyd â gwell adnabyddiaeth o rai o'r *dramatis personae* a wnaeth gyfraniad allweddol ar y pryd ond y tueddwyd i anghofio amdanynt yn ddiweddarach. Rŵan, o gofio pa mor aruthrol fawr oedd cyfraniadau rhai o'r ffigyrau canonaidd hynny a gysylltwn â bywyd y Plaid Cymru ifanc – Saunders Lewis, Kate Roberts, Lewis Valentine, D.J. Williams, Ambrose Bebb, Noëlle a D.J. Davies, ac yn y blaen – efallai na ddylem synnu fod rhai o'r enwau eraill yma wedi mynd dros gof. Dichon, hefyd, fod pob plaid neu fudiad gwleidyddol yn llunio ei fersiwn ei hun o "stori'r geni" gan symleiddio hanesion fu mewn gwirionedd yn fwy cymhleth, cordeddog ac anuniongyrchol nag a addefir yn ddiweddarach. Serch hynny, mae'n briodol fod unigolion megis Mai a Priscy Roberts, Evan Alwyn Owen a HR Jones wedi derbyn sylw a dyledus-barch.

Nid yw'n fwriad gennyf ddychwelyd at yr un tir heno. Yn hytrach, rwyf am droi ar gwestiwn ychydig yn wahanol ynglŷn â gwreiddiau Plaid Cymru: fy nghwestiwn yw nid pryd a gan bwy y sefydlwyd Plaid Genedlaethol Cymru ond pam? Beth oedd yr ysgogiad neu'r ysgogiadau gwreiddiol ac, yn gysylltiedig â hynny, i ba raddau yr arhoswyd yn gyson â'r gyriant neu'r gyriannau gwreiddiol?

Mae na sawl rheswm pam fy mod yn ystyried fod rhain yn gwestiynau gwerth eu gofyn. Ond yn bennaf oll hyn: o ymdrwytho yn hanes hanner cyntaf y 1920au yng Nghymru mae'n amlwg fod yna nifer o garfannau ynghyd ag unigolion mewn gwahanol rannau o Gymru i gyd yn credu fod angen sefydlu rhywbeth yn debyg i Blaid Cymru.

Mae'r hanes o sut y digwyddodd hynny'n hysbys. Fe wyddwn, o'r herwydd, nad oedd dim yn anorfod am lwyddiant ymdrechion 1924/25. Yn wir, gallasai'r cyfan yn hawdd iawn fod wedi methu. Mae'n gwbl briodol felly fod Pleidwyr cyfoes yn cydnabod cyfraniad yr unigolion hynny a sicrhaodd fod y fenter wedi cydio a graddol fwrw gwreiddiau. Wedi dweud hynny, hyd yn oed pe na bai H.R. Jones a'i gymrodyr wedi llwyddo, gallwn fod yn weddol sicr y byddai rhywun arall wedi rhoi cynnig arni. Yn y pendraw, y byddai ymdrech i sefydlu rhywbeth yn debyg iawn i Blaid Genedlaethol Cymru wedi llwyddo. Mae'n werth cofio yn hyn o beth mae dim ond yn 1934 y llwyddwyd i sefydlu chwaer blaid Plaid Cymru, y Scottish National Party.

Rwy'n dweud hyn oll oherwydd mai syniadau, credoau, tybiaethau a rhagdybiaethau a sbardunodd sefydlu Plaid Cymru. Oedd roedd rhain yn cael eu dehongli a'u hatgynhyrchu gan unigolion penodol, a mae deall eu cyfraniadau nhw felly'n gyfraniad gwerthfawr a phwysig. Ond roedd y gwahanol syniadau yma'n atseinio'n llawer ehangach na'r unigolion dan sylw. Yr hyn y carwn geisio ei wneud heno yw olrhain eu prif elfennau.

---

Gadewch i mi gychwyn trwy geisio crynhoi thesis y ddarlith.

Yn syml, roedd sefydlu Plaid Genedlaethol Cymru yn dynodi hollt yn rhengoedd cenedlaetholdeb Cymreig; hollt y gellir ei olrain yn ôl at effaith y Rhyfel Byd Cyntaf (neu'r Rhyfel Mawr) a'i sgil-effeithiau ar wleidyddiaeth Cymru ynghyd â gwleidyddiaeth y Deyrnas Gyfunol a'i Hymerodraeth. Tanseiliwyd y ffurf ar genedlaetholdeb Cymreig a grisialodd yn nau ddegawd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn benodol, daeth sicrhau amcan hir dymor y ffurf Cymru Fyddaidd ar genedlaetholdeb Cymreig yn anos o lawer, os nad yn wir yn amhosibl. Yr amcan hwnnw oedd sicrhau cydnabyddiaeth genedlaethol lawn i

Gymru oddi mewn i fersiwn o Brydain a Phrydeindod oedd yn aml-genedlaethol a chynhwysol: Prydain Fawr nid Lloegr Fawr, fel petai. Ar ôl 1918 ac ymadawiad y rhan fwyaf o Aelodau Seneddol Iwerddon o Dŷ'r Cyffredin – gan ragflaenu eu hymadawiad ffurfiol ar ôl sefydlu'r Dalaith Rydd yn 1921 – breuddwyd gwrach fyddai honno.

Dichon y byddai hyn wedi bod yn ddigon ynddo'i hun i dynnu pob mymryn o wynt o hwyliau'r cenedlaetholdeb Cymreig gwreiddiol. Ond drylliwyd y cwch yn fwy trylwyr fyth gan newidiadau yng ngwleidyddiaeth Cymru ei hunan. Wrth i ddominyddiaeth Ryddfrydol ildio yn wyneb twf y Blaid Lafur, fe beidiodd strategaeth wleidyddol Cymru Fyddiaeth a bod yn ddichonadwy. Cyn hynny, impio'r rhaglen genedlaethol Gymreig ar agenda'r blaid wrth-Dorïaidd fwyaf, sef wrth gwrs y Rhyddfrydwyr, oedd hanfod y strategaeth honno, a theg yw dweud ei bod wedi ennill buddugoliaethau sylweddol cyn y Rhyfel Mawr. Rydym yn bresennol heno yn un ohonynt.

Ond wrth i genedlaetholwyr Cymru Fyddaidd ymrannu rhwng dwy blaid oedd yng ngyddfau eu gilydd – ac wrth i un o'r rheini, sef y Rhyddfrydwyr, nid yn unig ymrannu ymhellach ond gydweithio a chynghreirio â'r Ceidwadwyr a hynny o safle o wendid – byddai unrhyw bosibiliad o gynnydd cyffelyb yn diflannu am ddau ddegawd a mwy. Dim ond ar ôl i'r bleidlais wrth-Dorïaidd yng Nghymru gronni y tu ôl i Lafur yn derfynol ar ôl yr Ail Ryfel Byd y cafodd y strategaeth wleidyddol Cymru Fyddaidd ail-wynt.

Effaith negyddol iawn y Rhyfel Mawr o ran rhaglen a strategaeth wleidyddol y ffrwd Gymru Fyddaidd oddi mewn i genedlaetholdeb Cymreig ydi un ochr o'r geiniog, felly. Ochr arall y geiniog yw'r ffaith fod y Rhyfel wedi gweithredu fel bydwraig ar gyfer geni math gwahanol o genedlaetholdeb Cymreig. Cenedlaetholdeb oedd hwn a gredai nad oedd dyfodol i Gymru oddi mewn i fframwaith Prydeindod Ymerodraethol ac a gredai hefyd na cheid gwaredigaeth

trwy'r gyfundrefn bleidiol 'Seisnig'. Dyma oedd y ffrwd a ymgorfforwyd yn y Blaid Genedlaethol newydd. Roedd yn ffrwd a ysbrydolwyd yn anad dim gan Wrthryfel y Pasg yn Nulyn a'i ganlyniadau o ran gwleidyddiaeth ynys Iwerddon yn ogystal â gwleidyddiaeth y wladwriaeth a'r Ymerodraeth Brydeinig ehangach.

---

Mae yna sawl is-ddadl yn sail i'r brif ddadl hon. Yn anffodus, a minnau am geisio sicrhau nad ydym ni yma tan yr oriau mân, nid oes gofod i'w datblygu'n llawn heno. Ond rwy'n weddol sicr mae'r elfen fwyaf anghyfarwydd o'r hyn yr wyf wedi ei ddweud hyd yn hyn ydi fy haeriad fod yna ddwy brif ffrwd oddi mewn i genedlaethol Cymreig, ffrwd y Blaid Genedlaethol, ar y naill law, a'r ffrwd Cymru Fyddaidd, ar y llall.

Gadewch i mi felly ymhelaethu ychydig.

1. **Efallai fod Mudiad Cymru Fydd wedi edwino'n gyflym ar ôl y cyfarfod drwg-enwog yna yng Nghasnewydd yn Ionawr 1896 – lle gwelwyd Alderman Bird yn gwrthod 'the domination of Welsh ideas', ac yn y blaen – ond serch hynny, ni ddiflannodd Cymru Fydd*iaeth*.** Yn wir, gyda doethineb drannoeth, fe ellir dadlau mai Arwisgiad 1911 oedd penllanw'r fersiwn yma o genedlaetholdeb Cymreig hyd at flynyddoedd olaf yr 20fed ganrif, o leiaf.

   Ond hyd yn oed ar drothwy'r Rhyfel Mawr, roedd gan y ffrwd hon o genedlaetholdeb ddigon o resymau i deimlo'n optimistaidd ynglŷn â'r dyfodol. Wedi'r cwbl, roedd modd dadlau fod Cymru'n brysur cael ei chydnabod fel cenedl gyfansoddol o'r Deyrnas Gyfunol megis trwy'r Arwisgiad ac – o'r diwedd – trwy basio deddf a fyddai'n Datgysylltu a Dadwaddoli'r Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru. Roedd y drafodaeth ar ymreolaeth Wyddelig

oddi mewn i'r wladwriaeth yn parhau'n fyw, a hynny er gwaethaf teyrn-fradwriaeth rhannau o'r lluoedd arfog ac arweinwyr y Blaid Geidwadol. Roedd hyn yn ei dro'n golygu fod y posibiliad o ddilyn arweiniad Iwerddon ar y llwybr tuag at Ymreolaeth nid yn unig yn parhau'n fyw ac yn iach, ond yn fwy credadwy nag erioed o'r blaen. Ac wrth gwrs, roedd feto Tŷ'r Arglwyddi wedi ei ddileu gan agor y drws i ddiwygiadau radicalaidd o'r fath.

2. **Nid yn unig y goroesodd y ffrwd Cymru Fyddaidd yng nghenedlaetholdeb Cymreig y Rhyfel Mawr ond barhaodd yn rhan o fywyd Cymru hyd at y dwthwn hwn (onid yw Carwyn Jones a Jeremy Miles ac Eluned Morgan, hyd yn oed, yn etifeddion amlwg i'r traddodiad?)** Ond o olrhain hanes Cymru Fyddiaeth yn y degawdau ar ôl y Rhyfel Mawr yr hyn sy'n taro rhywun yw graddau'r cysylltiad â'r Cymru Fydd gwreiddiol a hynny'n bersonol yn ogystal ag yn syniadaethol.

Mae llawer wedi sylwi ar rôl ganolog epil arweinwyr y Mudiad Cymru Fydd gwreiddiol mewn gweithgaredd cenedlaethol Cymreig hyd ddiwedd y 1950au a'r tu hwnt: meddylier am Ifan ab Owen Edwards, T.I. Ellis a Megan Lloyd George. Ond mae llai wedi sylwi ar y cysylltiad â arweinwyr diweddarach fel Huw T Edwards a Cledwyn Hughes. Serch hynny, bu Huw T Edwards yn Gadeirydd cangen Glannau Dyfrdwy o Undeb Cymru Fydd, sef y mudiad a sefydlwyd i barhau â chenhadaeth y Cymru Fydd gwreiddiol ac a arweinwyd gan T..I Ellis. Bu i 'Cled' gyfarfod â'i wraig trwy eu haelodaeth o gangen arall o'r un mudiad. Yn wir, yn ôl Gwilym Prys Davies roedd Cledwyn Hughes nid yn unig wedi etifeddu '[d]elfrydiaeth mudiad Cymru Fydd' ond hyn oedd 'wrth wraidd ei genhadaeth dros Senedd i Gymru a diogelu'r Gymraeg. Roedd yn ei waed. Ni ddihangodd oddi wrth Cymru Fydd.'

3. **Oedd, fe roedd ac y mae cenedlaetholdeb Cymru Fyddaidd yn genedlaetholdeb 'go iawn'**. Mae hyn bwynt sydd angen ei danlinellu gan fod

un o'n haneswyr amlycaf, K.O. Morgan, wedi awgrymu na ddylid ystyried y don gyntaf o genedlaetholdeb Cymreig yn genedlaetholdeb go iawn gan nad oedd yn debyg i'r ffurf ar genedlaetholdeb Gwyddelig a oedd yn gyfrifol am Wrthryfel y Pasg ac a fu mor amlwg wedi hynny. Ysywaeth, rwy'n ofni fod hon yn safbwynt sy'n bradychu cryn ddryswch ynglŷn â chenedlaetholdeb, yn gyffredinol, a chryn anwybodaeth ynglŷn â chenedlaetholdeb Gwyddelig, yn fwy penodol.

Yr hyn sy'n drawiadol, i mi o leiaf, yw pa mor debyg oedd ac yw cenedlaetholdeb Cymru Fyddiaeth i brif ffrwd cenedlaetholdeb Gwyddelig cyn 1916. Hyd yn oed os oedd strategaeth wleidyddol John Redmond a'r Irish Parliamentary Party (IPP) ar gyfer cyrchu'r nod yn wahanol, roeddynt hefyd yn credu fod modd digoni dyheadau cenedlaethol Gwyddelig <u>oddi mewn</u> i fframwaith y wladwriaeth a'r ymerodraeth Brydeinig a'r hunaniaeth Brydeinig oedd yn gysylltiedig â hwy. Cyn Gwrthryfel y Pasg – neu, yn fwy cywir, cyn adwaith y wladwriaeth Brydeinig i'r Gwrthryfel – lleiafrif bychan iawn o genedlaetholwyr Gwyddelig oedd yn credu'n wahanol.

4. **Roedd ac eto mae llawer o dir cyffredin rhwng dwy ffrwd cenedlaetholdeb Cymreig.** Maent yn cytuno ynglŷn â phwysigrwydd yr iaith Gymraeg i hunaniaeth Gymreig a'r angen i'w gwarchod. Maent yn cytuno hefyd ynglŷn â'r angen i fynd i'r afael â'r heriau economaidd a chymdeithasol y mae Cymru'n eu hwynebu trwy fframwaith cenedlaethol Cymreig. Ac maent yn gwbl gytûn fod Cymru angen Senedd ddeddfwriaethol rymus. Nid yw'n syndod, felly, fod dwy ffrwd cenedlaetholdeb Cymreig wedi llwyddo i gydweithio â'u gilydd ar y materion hyn. Y cydweithio yma, yn ei dro, fu'r allwedd i'r cynnydd a welwyd o safbwynt gwireddu'r agenda genedlaethol Gymreig dros y ganrif ddiwethaf – gyda sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol yn 1999 yn sefyll fel y fuddugoliaeth fwyaf a mwyaf arwyddocaol o'r cyfan.

---

Ond yr anghytuno yw fy niddordeb heno, ac felly dyma ddychwelyd at yr hollt. Y peth cyntaf i'w sefydlu yw fod na hollt, bod ei fodolaeth yn cael ei gydnabod ar y naill ochr â'r llall iddo, a bod datblygiadau'n Iwerddon yn chwarae rhan cwbl ganolog yn yr ymrannu.

Mae arwyddion lu o fodolaeth yr hollt. Mae un o fy hoff enghreifftiau wedi ei lloffa o dudalennau'r *Scots Independent*, papur a sefydlwyd yn 1926 i hybu achos annibyniaeth i'r Alban ac sy'n parhau i gael ei gyhoeddi hyd heddiw. Mae'r papur yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am ddyddiau cynnar Plaid Cymru am fod rhai o'i phrif arweinwyr – gan gynnwys Saunders a DJ Davies – wedi cyhoeddi ysgrifau ynddo yn ceisio egluro hynt a helynt y blaid newydd i Albanwyr cydymdeimladol. Ond, yn y cyd-destun presennol, efallai mai'r cyfraniad mwyaf dadlennol ydi ysgrif gan Lewis Spence yn sôn am ei brofiadau'n mynychu Ysgol Haf y Blaid ym Mhwllheli yn 1929.

Roedd Spence yn gymeriad rhyfeddol – ac yn sicr rhyfeddol o liwgar. Roedd yn arbenigwr ar yr Ocwlt ac yn awdur sawl cyfrol ar 'deyrnas goll' Atlantis – mae rhai ohonynt yn parhau mewn print! Ond yr oedd hefyd yn Ddirprwy Gadeirydd y National Party of Scotland, un o'r ddwy blaid a fyddai maes o law yn uno i ffurfio'r SNP. Yn ei ysgrif yn trafod ei argraffiadau o'r cyfarfod mae Spence yn dweud iddo ymuno â wibdaith siarabang yr Ysgol Haf i ymweld â llefydd nodedig ym Mhen Llŷn. Fe deithiodd y bws heibio i'r tŷ yn Llanystumdwy lle y magwyd Lloyd George. A beth medda chi oedd ymateb y teithwyr? Wel, yn ôl Spence, yn fe ddechreuont fŵian a hisian.

Mae yna rywbeth doniol o ddiniwed yn y darlun o lond bys o aelodau plaid fechan iawn yn hwtian cartref gŵr a fu, tan 1922, yn Brif Weinidog ar Brydain a'i Hymerodraeth, sef yr ymerodraeth fwyaf a welodd y byd erioed, a hynny ar

adeg ei phenllanw. Eto, mae'n un arwydd o'r modd yr oedd sefydlu'r Blaid Genedlaethol yn arwyddo rhwyg sylfaenol oddi mewn i genedlaetholdeb Cymreig. Wedi'r cwbl, cyn iddo gychwyn ar ei yrfa lachar ym mhrif swyddi'r wladwriaeth Brydeinig, dichon mai'r bachgen a faged yn Llanystumdwy oedd prif arweinydd y don gyntaf o genedlaetholdeb Cymreig a gysylltir yn bennaf oll â mudiad Cymru Fydd. Fe barhaodd 'Dewin Dwyfor' yn eilun i'r cenedlaethau o genedlaetholwyr Cymreig a barhaodd i feddwl am ddyfodol eu cenedl mewn termau Cymru Fyddaidd hyd at y 1920au a thu hwnt. Yn wir, ceir digonedd o dystiolaeth eu bod yn parhau'n obeithiol y byddai Lloyd George yn defnyddio ei awdurdod a'i ddylanwad i hybu'r achos cenedlaethol. Iddynt hwy – ac iddo ef ei hun hefyd, debyg iawn – fe barhaodd i fod yn genedlaetholwyr Cymreig trwy'r cyfan. Ond wele aelodau y Blaid Genedlaethol Cymru newydd *en fête* yn achub ar y cyfle i ddangos eu dirmyg tuag ŵr a ystyrient fel dim mwy na ryw Ddic Siôn Dafydd. Bron iawn i ganrif yn ddiweddarach, go brin fod amser wedi lliniaru dim ar ddyfarniad cefnogwyr Plaid Cymru ohono.

Roedd na elfennau lawer mwy difrifol a hyll i'r hollt na'r hyn a welwyd ar y siarabang yn Llanystumdwy, wrth gwrs. Yn fwyaf amlwg, yn ystod blynyddoedd yr Ail Ryfel byd, fe chwaraeodd un o gynghreiriad Cymreig agosaf Lloyd George, Thomas Jones, ynghyd ag etifeddion cyfoes y traddodiad Cymru Fydd megis D. Emrys Evans, Prifathro Coleg y Brifysgol ym Mangor, a'r Parchedig Gwilym Davies, rôl ganolog yn yr ymdrech i bardduo Plaid Genedlaethol Cymru fel plaid ac iddi arlliw Ffasgaidd – rhywbeth yr wyf wedi ei drafod mewn mwy o fanylder yn fy nghyfrol *Y Blaid Ffasgaidd yng Nghymru: Plaid Cymru a'r Cyhuddiad o Ffasgaeth.*

Roedd agweddau gwahanol iawn ar Wrthryfel y Pasg a'i ganlyniadau yn ganolog i'r rhaniad. Wna'i ddim mynd ati i bentyrru enghreifftiau yma ond, a nodi ambell un yn unig. Ym mis Medi 1923, ceir Beriah Gwynfe Evans, gŵr a fu ar dro'n Ysgrifennydd Mudiad Cymru Fydd ac a oedd yn parhau'n edmygwr o

Aelod Seneddol Bwrdeistrefi Arfon, yn gresynu at y modd y clywyd 'De Valera compared and contrasted with Lloyd George, to the latter's disadvantage.' O gofio fod Éamon de Valera wedi ei garcharu yn Kilmainham ar y pryd, a hynny ar ôl iddo ef a'i luoedd gael eu trechu mewn rhyfel cartref hyll yn erbyn y garfan fwyafrifol ym mhlaid Sinn Féin oedd o blaid y cytundeb Eingl-Wyddelig, afraid dweud fod y gymhariaeth yn un fwriadol ymfflamychol.

Yn ddiweddarach, gwelwyd y sawl oedd yn sefyll yn llinach Cymru Fydd yn dadlau fod ei cynlluniau nhw ar gyfer Senedd i Gymru yn sylfaenol wahanol i'r hyn a weithredwyd yn neheudir Iwerddon ar ôl 1921 a hynny'n benodol oherwydd eu bod am i Gymru chwarae rhan lawn ym mywyd y wladwriaeth a'i Hymerodraeth yn hytrach na gwrthgilio fel a wnaeth y Gwyddelod, yn eu tyb hwy o leiaf.

Dwn i ddim os mai arwydd o wendid cyffredinol ei ddadleuon ynteu obsesiwn hefo'r Iwerddon oedd y ffaith fod cefnogaeth y Blaid Genedlaethol i sefydlu ail siambr i ddeddfwrfa Cymreig ar batrwm *Seanad* Iwerddon wedi chwarae rhan ganolog yn ymdrech y Parchedig Gwilym Davies yn 1942 i brofi mai'r Blaid Genedlaethol oedd, a dyfynnu ei union eiriau, 'y Blaid Ffasgaidd yng Nghymru.' Ie wir, efallai mai ef oedd y gŵr a ysgogodd 'Neges Heddwch ac Ewyllys Da' Urdd Gobaith Cymru, ond ni cheid unrhyw arwydd o ewyllys da yn ei ymdriniaeth o Blaid Cymru a'i haelodau – na gonestrwydd deallusol chwaith.

Ar ochr arall yr hollt, mater o falchder yn hytrach na chywilydd oedd y dylanwad Gwyddelig, a hynny am ddau ddegawd a mwy ar ôl sefydlu'r Blaid Genedlaethol. O blith y sylfaenwyr, roedd H.R. Jones ac Evan Alwyn Owen yn falch o ystyried eu hunain yn *Sinn Fein*wyr Cymreig ac yn credu mai angen Cymru oedd dogn o 'ysbryd' Sinn Fein. Yn ei deyrnged i Jones fe ddywedodd Saunders Lewis mai 'H.R. oedd yr unig un yn ein plith y gellid dychmygu am Michael Collins yn rhoi swydd iddo, un a wnâi unrhyw beth, heb falio am ganlyniadau, os dygai

ddydd rhyddid Cymru yn agosach.' Rŵan fy nhybiaeth i yw y byddai H.R. Jones wedi bod â mwy o gydymdeimlad hefo gelynion Collins yn y Rhyfel Cartref a ddilynodd y Rhyfel Annibyniaeth. Ond gan mai Collins oedd arweinydd milwrol mwyaf effeithiol y gwrthryfelwyr Gwyddelig yn erbyn lluoedd Prydain, dichon y byddai serch hynny wedi gwerthfawrogi ergyd y deyrnged.

Roedd Saunders Lewis yntau'n drwm dan ddylanwad syniadau'r gwrthryfelwyr Gwyddelig. Eto, nid oes amser i fynd i'r afael â'r holl fater heno, ond yn bendifaddau – ac yn ôl ei addefiad ei hun, hyd yn oed – roedd y syniadau yma'n **fwy** o ddylanwad arno na'r syniadau Ffrengig hynny yr ydym wedi rhoi cymaint o sylw iddynt ers i Dafydd Glyn Jones gyhoeddi ei astudiaeth orchestol o syniadau gwleidyddol Saunders Lewis yn ôl yn 1973. Felly, er enghraifft, mae ei 'Ddeg Pwynt Polisi' drwg-enwog yn uniongred o *Sinn Fein*aidd – wedi eu hydreiddio â'r safbwyntiau a hyd yn oed yr ieithwedd a hyrwyddwyd gan Arthur Griffith.

Dadlennol hefyd yw'r hyn a ddywedodd JR Jones, Ysgrifennydd a Threfnydd Plaid Cymru wedi marwolaeth annhymig HR Jones, ynglŷn â'r dylanwad Gwyddelig:

> Iwerddon fu'r symbyliad a'r ysbrydiaeth gryfaf i genedlaetholdeb yng Nghymru yn ein cyfnod ni... Wedi rhyfel 1914-18,...[B]u amryw o Gymry ym myddin Lloegr yn Iwerddon a gweled a sylweddoli'r gormes yno; tyfodd cydymdeimlad tuag at Iwerddon, er gwaethaf propaganda Lloyd George. Yna enillodd Iwerddon ei rhyddid yn 1921: y wlad gyntaf yn yr holl ymerodraeth i'w ennill... Trwy lyfrau daeth arwyr Iwerddon yn adnabyddus ac yn ysbrydiaeth i lu ohonom yng Nghymru... Daeth baledi Thomas Davis o ganol y ganrif ddiwethaf yn adnabyddus i lawer ohonom...a'r arwr rhamantus Michael Collins... Parhaodd ysbrydiaeth Iwerddon ar nifer fawr yn y Blaid hyd Ryfel Mawr 1939-45 hyd yn oed. Praw o hynny oedd y galw cyson am lyfrau ar frwydr Iwerddon a'i harwyr

trwy'r cyfnod, ac yr oeddwn yn gwerthu'r llyfrau hynny wrth y cannoedd o Swyddfa'r Blaid yng Nghaernarfon.

Rhag ofn nad yw'r peth yn eglur, rhaid pwysleisio mai rhan o bechod mawr Lloyd George yn llygaid aelodau'r ffrwd yma o genedlaetholdeb Cymreig oedd y rhan a chwaraeodd – yn eu tyb hwy, o leiaf – yn gwrthsefyll ac yna'n glastwreiddio 'rhyddid' Iwerddon.

---

Ond ym mha ffyrdd yn benodol yr oedd y ffrwd newydd yma mewn cenedlaetholdeb Cymreig wedi eu hysbrydoli gan Iwerddon? Rwyf am ganolbwyntio ar ddau ohonynt: fe brofodd un yn ddylanwad hirhoedlog a chwbl sylfaenol ond y llall yn ddylanwad tymor byr y unig.

Gadewch i ni gychwyn hefo'r cyntaf o'r rhain, sef yr agwedd at **Brydain** a **Phrydeindod**.

Fel y gwelsom mae cenedlaetholdeb Cymru Fyddaidd yn credu y gellir diwallu anghenion cenedlaethol Cymru oddi mewn i fframwaith Prydeindod a'r wladwriaeth Brydeinig (ac ar un adeg yr Ymerodraeth, hefyd.) Nodais fod y fersiwn o Brydeindod ac o'r wladwriaeth Brydeinig a goleddwyd ganddynt yn un benodol iawn – maent yn dyrchafu Prydain a Phrydeindod sy'n parchu amrywiaeth cenedlaethol mewnol yn hytrach na Phrydain a Prydeindod sy'n ymestyniad o Loegr a Seisnigrwydd. Yr her i'r rhain, felly, oedd i hybu'r ddealltwriaeth gywir neu dderbyniol o Brydain a Phrydeindod tra'n ennill cydnabyddiaeth i Gymru fel un o'i chenhedloedd cyfansoddol.

Ond mae hefyd yn werth tanlinellu pwynt arall yma, sef fod yr ymrwymiad y ffrwd Cymru Fyddaidd at Brydain a Phrydeindod yn fwy na mater oeraidd, ymarferol yn unig. Roedd ac mae hefyd yn fater o emosiwn a hunaniaeth

personol. Wele eiriau David Thomas – hen daid yr ymgyrchydd iaith, Angharad Tomos, ond yn bwysicach o safbwynt y drafodaeth hon, gŵr oedd yn ffigwr o bwys yn y ffrwd Cymru Fyddaidd yn y Blaid Lafur.  Wrth herio Gwynfor Evans mewn ysgrif a gyhoeddwyd yn *Y Faner* ym mis Mai 1950 – meddai Thomas:

> Teimlaf yn falch iawn o fod yn Gymro ac o berthyn i wlad fechan, ond rwy'n falch iawn hefyd fy mod yn Brydeiniwr.

Ymhellach, credai

> Y gall Cymru wneud mwy o gyfraniad at gydwladoldeb trwy gryfhau'r elfennau gorau ym mholisi dramor gwlad mor bwysig â Phrydain nag a allai ei wneud fel cenedl fechan "ddistadl" ymhlith lliaws cenhedloedd mawr y byd.

Hyn, cofiwch, mewn ysgrif lle'r oedd yn disgrifio ei hun fel 'cenedlaetholwr' Cymreig.

Nid felly y mae deiliaid traddodiad y Blaid Genedlaethol wedi gweld perthynas Cymru a Chymreictod â Phrydain a Phrydeinidod. Iddynt hwy, nid peth i ymffrostio ynddo yw cysylltiad Cymru â'r wladwriaeth Brydeinig. Yn eu tyb hwy, yn hytrach, ni cheir dyfodol hir dymor heb sôn am achubiaeth i Gymru oddi mewn i'w rhwyd. I'r gwrthwyneb: ni cheir achubiaeth oni lwyddir i ymddihatru Cymru o'i dylanwad. Yn wir tueddwyd i ddadlau fod  Prydeindod yng Nghymru yn ddim mwy na ffurf ar ffug-ymwybyddiaeth (*false consciousness*). Dim ond trwy fwrw Prydain a Phrydeindod o'r neilltu yr enillodd y Gwyddyl eu rhyddid a roedd yn rhaid i ninnau ddilyn eu harweiniad.

Yn gyson â'u hysbrydoliaeth Gwyddelig, bu Plaid Cymru hefyd yn gyson-gefnogol i'r camau a welwyd tuag at ymddatod yr ymerodraeth Brydeinig ynghyd â phob ymerodraeth arall. Cyn y 1960au, o leiaf, bu'n rhaid iddi dalu pris gwleidyddol uchel am goleddu safbwynt o'r fath gan ei bod yn golygu ei bod yn sefyll ar dir gwleidyddol unig iawn. Yr enghraifft fwyaf trawiadol o hyn yw'r dyfroedd dyfnion a fu'n agos at foddi'r Blaid yn gyfan gwbl adeg yr Ail

Ryfel Byd a hynny oherwydd ei bod wedi dehongli'r rhyfel – ei gamddehongli, yn fy nhyb i – fel rhyfel rhwng grymoedd imperialaidd a oedd i gyd cynddrwg a'i gilydd.

Fe osododd hyn oll gywair sy'n parhau'n i gael effeithiau hyd heddiw gydag agweddau tra-wahanol at faterion rhyngwladol yn un o'r pethau'n sy'n gwahaniaethu'r ddwy ffrwd oddi mewn i genedlaetholdeb Cymreig o'i gilydd. A siarad yn fras, yn y cyfnod ers yr Ail Ryfel Byd, o leiaf, mae Pleidwyr wedi tueddu i gael mwy o ddiddordeb mewn materion rhyngwladol. Yn gysylltiedig â hyn, maent yn tueddu i roi llawer mwy o bwyslais ar sicrhau fod Cymru'n cael ei cynrychioli yn ei hawl ei hun ar y llwyfan rhyngwladol. Un o'r rhesymau pam eu bod yn credu fod hynny'n bwysig yw eu bod yn grediniol y byddai Cymru'n eirioli ar ran cytser gwahanol iawn o werthoedd i'r rheini a gynrychiolir gan 'wlad mor bwysig â Phrydain.'

Yn fwy cyffredinol, mae Plaid Cymru wedi parhau'n amheus iawn o Brydain a Phrydeindod gan gredu na all Cymru a Chymreictod ffynnu yn eu cysgod. Y newid mawr yn y cyd-destun yma yw fod mwy a mwy o'r to ifanc yng Nghymru fel petaent yn cytuno â Phleidwyr ar berthynas Cymreictod a Phrydeindod ac yn cefnu ar hunaniaeth Brydeinig – ond mae hynny'n destun darlith wahanol, felly taw pia hi!

**Strategaeth wleidyddol** ydi'r ail fater yr wyf am ei drafod lle cafodd esiampl Iwerddon effaith ar y penderfyniad i sefydlu'r Blaid Genedlaethol. Yn yr achos yma, fodd bynnag, cymharol fyrhoedlog a fu'r dylanwad.

Rwyf eisoes wedi cyfeirio at strategaeth wleidyddol Cymru Fyddiaeth: impio'r rhaglen genedlaethol Gymreig ar raglen y blaid gwrth-Dorïaidd fwyaf a gweithio i ethol y blaid honno a wedyn – gobeithio – gweithredu'r rhaglen. Bid siŵr, roedd yn strategaeth a oedd yn sicr o arwain at lawer o rwystredigaeth. Os

yr oedd y Torïaid mewn grym yna nid oedd gobaith cyflawni llawer o ddim – felly'r cyfnod rhwng 1895-1906 neu ymron y cyfan o'r cyfnod rhwng y rhyfeloedd byd. Ac hyd yn oed os oedd y blaid gywir mewn grym, roedd posibiliad na fyddai ei harweinyddiaeth yn fodlon cyd-synio â'r agenda genedlaethol. Am enghraifft gyfoes iawn o hynny, cymharer agweddau sylfaenol-wahanol y Blaid Lafur tuag at ddatganoli cyfiawnder i Gymru yn 2017, 2019 a 2024.

Eto, mae'n bwysig cydnabod fod y strategaeth o geisio dylanwadu oddi mewn a thrwy'r gyfundrefn bleidiol Brydeinig wedi profi'n llwyddiannus ar wahanol adegau. Ac wrth gwrs, cyn 1918, roedd y ffaith fod cynifer o Aelodau Seneddol yn cael eu dychwelyd o ynys Iwerddon i Dŷ'r Cyffredin – dros gant ohonynt – yn golygu y byddai cwestiynau yn ymwneud â'r 'cyfansoddiad diriogaethol' (*territorial constitution*), fel ei gelwir, yn sicr o godi'n gyson. Ac er fod ganddyntu eu plaid eu hunain ar ôl 1874 yn ffurf yr Irish Parliamentary Party – yr IPP – strategaeth y cenedlaetholwyr Gwyddelig oedd hefyd i geisio defnyddio eu grym oddi mewn i'r gyfundrefn bleidiol Brydeinig er mwyn hybu eu hagenda genedlaethol hwythau. A thra eu bod hwy'n ran mor ddylanwadol o'r darlun, fe ellid bod yn ffyddiog y byddai cyfleon yn codi'n gyson i genedlaetholwyr Cymreig gael eu pig i mewn, yn enwedig gan eu bod yn cydweithio â'u cefndryd Gwyddelig.

Wel, wedi i gynrychiolwyr *Sinn Féin* gael eu hethol yn lle cynrychiolwyr yr IPP yn 1918 a gwrthod cymryd eu seddau yn San Steffan, fe newidiodd pethau'n sylfaenol. Roedd yn ddiwedd ar obeithion gwleidyddol y ffrwd Cymru Fyddaidd am sawl degawd. Ond ar yr un pryd, roedd strategaeth *Sinn Féin* yn ysbrydoliaeth uniongyrchol i'r Blaid Genedlaethol.

'Ni ei hunain' ydi'r cyfieithiad o *Sinn Féin* a mae'n cyfleu i'r dim hanfod strategaeth wleidyddol sylfaenydd y blaid, Arthur Griffith. Credai fod angen i

genedlaetholwyr Gwyddelig ymwahanu o’r gyfundrefn wleidyddol Brydeinig – yn fwyaf amlwg, trwy wrthod cymryd eu seddau yn San Steffan – a mynd ati i greu eu hegin-wladwriaeth eu hunain trwy strwythurau llywodraeth leol Iwerddon. A dyma’n **union** bolisi y Blaid Genedlaethol ifanc: nid yn unig ymwahanu o’r ‘pleidiau Seisnig’, ond ymwahanu o’r holl gyfundrefn bleidiol Brydeinig ac adeiladu Cymru rydd trwy ei strwythurau llywodraeth leol.

O’r herwydd, pan safodd Lewis Valentine yn sedd Arfon yn 1929 fe wnaeth hynny ar sail ymrwymiad na fyddai, o gael ei ethol, yn cymryd ei sedd yn Nhŷ’r Cyffredin. Siom yn wyneb y ffaith mai dim ond 609 a oedd yn fodlon pleidleisio iddo ar y sail yna, ynghyd â diffyg ymgeiswyr oedd yn fodlon sefyll yn lliwiau’r Blaid newydd mewn etholiadau lleol, arweiniodd at newid y polisi o *abstentionism*. A mae’n werth nodi efallai, fod Saunders Lewis yn gyndyn iawn o gydsynio i’r newid polisi, a mae dyn yn synhwyro ei fod wedi parhau’n *Sinn Féin*wr-wrth-reddf ar y mater weddill ei oes.

Canlyniad hynny yw fod y Plaid Cymru, ers iddi sicrhau presenoldeb yn San Steffan, wedi gweithredu llawer iawn mwy fel yr Irish Parliamentary Party na’r *Sinn Fein* a roddodd yr ysbrydoliaeth wreiddiol. Ysywaeth, yr IPP heb y niferoedd i sicrhau dylanwad cyson. Serch hynny, mae’r blaid wedi defnyddio ei grym gorau y gallai – gyda’r grym bargeinio ar ei fwyaf pan mae llywodraeth y dydd ar ei gwanaf. Fe ellid dadlau mae dyma sut y mae Plaid Cymru wedi ymddwyn yn Senedd Cymru ers ei sefydlu yn 1999 – os gyda chyfran llawer iawn uwch o’r seddau a mwy o ddylanwad o’r herwydd.

Serch hynny, mae’r gymhariaeth â’r IPP yn fodd o danlinellu pam y byddai arwain llywodraeth genedlaethol Cymreig am y tro cyntaf – rhywbeth na wnaeth yr IPP erioed, wrth gwrs – yn cynrychioli newid byd mor sylfaenol i Blaid Cymru. Os a phan ddigwydd hynny, yna fydd na ddim ryw lawer yn hanes y blaid, ac yn sicr

ddim yn hanes ei sefydlu, i Rhun ap Iorwerth a'i gymrodyr yntau gael pwyso arno. Felly hei lwc iddynt.

Richard Wyn Jones
Canolfan Llywodraethiant Cymru
Prifysgol Caerdydd